**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU NEWID SEFYDLIADOL**
**19 MAWRTH 2018**

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Newid Sefydliadol Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgor Delyn, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug CH7 6NA Dydd Llun, 19 Mawrth 2018

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Dave Mackie (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Janet Axworthy, Geoff Collett, Ian Dunbar, Mared Eastwood, Tudor Jones, Brian Lloyd, Mike Reece, Paul Shotton, Andy Williams a David Wisinger

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Kevin Hughes (ar ran Veronica Gay)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorwyr: Marion Bateman a Sean Bibby

**HEFYD YN BRESENNOL:** Roedd y Cynghorydd Patrick Heesom hefyd yn bresennol fel sylwedydd.

**CYFRANWYR:** Y Cynghorydd Billy Mullin, Aelod Cabinet dros Reolaeth Gorfforaethol ac Asedau, Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 2) a'r Swyddog Cyllid (ar gyfer Cofnod rhif.50)

Roedd Darren Jones, Cadeirydd y Bwrdd, a Steve Jones, Rheolwr-gyfarwyddwr, 'NEWydd Catering and Cleaning Limited' yn bresennol ar gyfer cofnod rhif 50. Roedd Paul Jones, Rheolwr Gwella Busnes a Pherfformiad a Neil Williams, Ysgrifennydd Cwmni, 'Aura Leisure and Libraries Limited' yn bresennol ar gyfer cofnod rhif 51.

**HEFYD YN BRESENNOL:** Hwylusydd Trosolwg a Chraffu a'r Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 45. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Derbyniwyd datganiad o gysylltiad personol a rhagfarnus gan y Cynghorydd Tudor Jones yn yr eitemau canlynol:

Eitem 6: Adolygiad o Gynnydd 'NEWydd Catering and Cleaning'
Eitem 7: Adolygiad o Gynnydd 'Aura Leisure and Libraries'

## 46. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2017 a 29 Ionawr 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod cywir a'u llofnodi gan y Cadeirydd.

**47. ADRODDIAD MONITRO CHWARTER 3 CYNLLUN Y CYNGOR AR GYFER 2017/18**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) Adroddiad Monitro Chwarter 3 Cynllun y Cyngor 2017/18. Esboniodd fod yr adroddiad yn cyflwyno'r gwaith o fonitro cynnydd blaenoriaeth Cynllun y Cyngor 'Cyngor sy'n Cysylltu' a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor.

Cyflwynodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a dywedodd fod yr adroddiad monitro ar gyfer Cynllun y Cyngor 2017/18 yn adroddiad cadarnhaol, gan fod cynnydd da yn cael ei wneud mewn 81% o'r gweithgareddau a aseswyd, ac roedd 69% yn debygol o gyflawni'r canlyniad a ddymunir. Roedd Dangosyddion Perfformiad yn dangos cynnydd da ac roedd 84% wedi cyrraedd targed y cyfnod, neu bron â'i gyrraedd. Llwyddwyd i reoli risgau hefyd ac aseswyd y mwyafrif fel risgiau canolig (67%) neu fân (10%).

Dywedodd y Prif Swyddog nad oedd unrhyw ddangosyddion perfformiad wedi'u nodi fel rhai statws coch o ran eu perfformiad presennol yn erbyn y targed ar gyfer y Pwyllgor ac nid oedd unrhyw risgiau wedi'u nodi. Roedd cynnydd yn erbyn y risgiau a nodwyd yng Nghynllun y Cyngor wedi'u cynnwys yn yr atodiad i'r adroddiad.

Mewn ymateb i sylw a wnaed gan y Cadeirydd ynghylch y cyfyngiadau i fusnesau lleol a chyflenwyr lleol, esboniodd y Prif Swyddog y byddai'r Strategaeth Budd Cymunedol yn gwella datblygiad marchnadoedd yn y gymuned leol a'r trydydd sector yn sgil newidiadau i'r broses gaffael bresennol.

**PENDERFYNWYD:**

Bod y Pwyllgor yn nodi adroddiad Monitro Chwarter 3 Cynllun y Cyngor 2017/18.

**48. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL**

Cyflwynodd yr Hwylusydd Trosolwg a Chraffu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol bresennol er mwyn iddi gael ei hystyried gan y Pwyllgor. Dywedodd y byddai'n rhannu manylion y rhaglen ar gyfer y flwyddyn i ddod ar ôl i ddyddiadau cyfarfodydd y pwyllgor gael eu cymeradwyo yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 1 Mai.

Tynnodd yr Hwylusydd sylw at yr eitemau i'w hystyried yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor ar 14 Mai 2018, a'r eitemau a oedd wedi'u dynodi i gael eu hystyried yng nghyfarfodydd y dyfodol.

Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n cysylltu â'r Cadeirydd, yn dilyn y cyfarfod, i bennu eitemau a restrwyd o dan 'eitemau i'w trefnu' ar gyfer dyddiadau addas cyfarfodydd y dyfodol.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a gyflwynwyd; ac

(b) Awdurdodi'r Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd neu'r Hwylusydd Trosolwg a Chraffu, mewn ymgynghoriad gyda'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd yn ôl yr angen.

**49. DEDDF LLYWODRAETH LEOL (MYNEDIAD I WYBODAETH) 1985 - YSTYRIED GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:**

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd ar gyfer gweddill y cyfarfod, dan ddarpariaethau paragraff(au) 14, Rhan 4, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd) er mwyn trafod yr eitemau canlynol oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu.

**50. ADOLYGIAD CYNNYDD ARLWYO A GLANHAU NEWYDD**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydiladol 1) adroddiad er mwyn galluogi'r Pwyllgor i adolygu cynnydd NEWydd ers ei sefydlu yn 2017. Cyflwynodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a gwahoddwyd Darren Jones – Cadeirydd y Bwrdd, a Steve Jones – Rheolwr-gyfarwyddwr, i adrodd ar sut roedd y newid wedi dod yn ei flaen ac ar Gynllun Busnes NEWydd ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch prydau ysgol a gwasanaethau glanhau. Cytunodd y Pwyllgor i dderbyn gwybodaeth bellach am brydau ysgol am ddim pan fyddai'n briodol.

Diolchodd y Cadeirydd i Darren Jones a Steve Jones am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Bod y Pwyllgor yn diolch i NEWydd am yr esboniad o'u Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19; a

(b) Nodi a chroesawu cynnydd NEWydd a oedd wedi cael blwyddyn gyntaf dda o fasnachu.

**51. ADOLYGIAD CYNNYDD HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD AURA**

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Newid Sefydliadol 1) adroddiad er mwyn galluogi'r Pwyllgor i adolygu cynnydd 'Aura Leisure and Libraries Limited' ers ei sefydlu yn 2017. Cyflwynodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a gwahoddwyd Paul Jones, Rheolwr Gwella Busnes a Pherfformiad, a Neil Williams, Ysgrifennydd y Cwmni, i adrodd ar gynnydd y trosglwyddiad ac ar Gynllun Busnes 'Aura Leisure and Libraries' ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

Gofynnodd yr aelodau nifer o gwestiynau am weithgareddau i bobl anabl a phrosiectau buddsoddiad cyfalaf y dyfodol. Cytunodd Paul Jones y byddai'n ystyried yr awgrymiadau i ddarparu sesiynau ychwanegol i bobl anabl.

Diolchodd y Cadeirydd i Paul Jones a Neil Williams am eu cyflwyniad ac am ateb cwestiynau'r Aelodau.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Nodi cynnydd 'Aura Leisure and Libraries Ltd' ers ei sefydlu ym mis Mawrth 2017; a

(b) Bod y Pwyllgor yn diolch i 'Aura Leisure and Libraries Ltd' am yr esboniad o'u Cynllun Busnes ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018/19.

## 52. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Nid oedd unrhyw aelodau o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.20 pm)

..................................................

**Cadeirydd**